

# GOSOD EICH CROES BREN EICH HUN

Mae'r wybodaeth ganlynol i'r rheiny sy'n dymuno gosod eu croes eu hunain ar fedd.

## YR HYN SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD:

- Bydd angen i chi gwblhau ffurflen cais am gofeb cyn y gellir gosod croes bren ar fedd. Mae'r ffurflen hon ar gael gan y Rheolwr Cofebau yn Swyddfa Mynwent Thornhill.
- Bydd manylion adran y fynwent a rhif y bedd yn cael eu gwirio ac ychwanegir manylion perchennog y bedd ar y ffurflen, er mwyn i chi sicrhau bod perchennog y bedd yn llofnodi'r ffurflen.
- Rhaid cwblhau'r adran arysgrif, gan roi manylion llawn yr arysgrif sydd i'w roi ar blât y groes.
- Os yw'r adran yn adran gardd lawnt (h.y. does dim cerrig ymylol ar y bedd) yna llofnodwch yma hefyd.
- Gwelir diagram dros y dudalen. Mae manylion maint y groes bren fel a ganlyn:

**ADEILEDIR Y GROES O DDAU DDARN O BREN NA FYDDANT YN LLETACH NA 3.5" NAC YN FWY TRWCHUS NA 2" A PHAN FYDD WEDI EI GOSOD NI FYDD YN DALACH NA 3'.**

Yn yr adrannau isod, cyfyngir uchder croesau pren i 12".

*Mynwent Pantmawr - Adran 'B'*

*Mynwent Radur - Adrannau - 'AC', 'E'*

*Mynwent Thornhill - Adrannau 'A' 'B' 'C' 'D' 'E' 'F' 'G' 'H' 'I' 'J' 'Q'*

*Mynwent y Gorllewin – Adran 'R'*

- Ni chaniateir gosod pwyntiau ar y groes, am resymau iechyd a diogelwch, ac eithrio ar waelod y groes er mwyn ei gosod.
- Cwblhewch bob rhan o'r ffurflen fel y gellir prosesu'r cais am gofeb.
- Codir tâl cofeb o **£16.00** a dylid gwneud yr holl sieciau'n daladwy i 'Cyngor Sir Caerdydd'.  
Dychwelwch eich ffurflen gais ynghyd â'ch ffi i;  
Gwasanaethau Profedigaeth, Thornhill Road, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 9UA.

## SYLWER:

Cyfrifoldeb y teulu yw croes bren a osodir ar fedd a dylid ei chadw mewn cyflwr da, neu bydd yr Awdurdod yn cael gwared â'r groes.

Os oes arnoch angen adnewyddu'r groes, cysylltwch â'r Rheolwr Cofebau yn y Gwasanaethau Profedigaeth, fel y gellir parhau i ddiweddarau'r cofnodion priodol, a hefyd, os yw teulu'n ymweld â'r bedd tra bo'r groes wedi cael ei symud i gael ei hadnewyddu, ein bod yn gallu rhoi gwybod i'r teulu rhag peri pryder.

## **GOSOD EICH CROES BREN**

- Dim ond ar ôl i chi dderbyn rhif caniatâd y gellir gosod croes bren ar fedd.
- Os ydych chi'n bryderus ynghylch lleoliad y groes, gellwch gysylltu ag aelod o'r staff cyn eich ymweliad er mwyn trefnu apwyntiad cyfleus: Argymhellir i chi gysylltu 24 i 48 awr o flaen llaw.
- Peidiwch â defnyddio sment i osod y groes yn ei lle – mae gwthio ochr big y groes i'r tir yn ddigon i ddal y gofeb yn ei lle.

## **AR ÔL GOSOD Y GROES**

- Dychwelwch y ffurflen caniatâd i swyddfa'r fynwent fel y gellir gwirio'r groes bren yn ystod gwiriadau arferol o'r cofebau. Bydd hyn yn sicrhau bod lleoliad y groes yn gywir a bod y groes wedi ei gosod yn gadarn yn ei lle.

Os bydd unrhyw ymholiadau gennych chi ynghylch gosod eich croes bren, cysylltwch ar unwaith â'r Rheolwr Cofebau ar 029 20544820.

4BS52	DATE: 04/14	ISSUE 5	PROCESS OWNER: Memorial Manager	AUTHORISATION OM(B)	Page 1
-------	-------------	---------	---------------------------------	---------------------	--------